Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 17 Mawrth 2014**

Amser:
**14.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk


## Agenda

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**

**2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3** (Tudalennau 1 - 4)
**CLA(4)-09-14 - Papur 1** - Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA367 - Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) (Diwygio) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 24 Chwefror 2014; Fe'u gosodwyd ar: 28 Chwefror 2014; Yn dod i rym ar: 21 Mawrth 2014

**CLA369 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 1 Mawrth 2014; Fe'u gosodwyd ar: 4 Mawrth 2014; Yn dod i rym ar: 1 Ebrill 2014

**CLA370 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 1 Mawrth 2014; Fe'u gosodwyd ar: 4 Mawrth 2014; Yn dod i rym ar: 1 Ebrill 2014

**CLA371 – Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 27 Chwefror 2014; Fe'u gosodwyd ar: 5 Mawrth 2014; Yn dod i rym ar: 1 Mai 2014

**CLA372 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 27 Chwefror 2014; Fe'u gosodwyd ar: 5 Mawrth 2014; Yn dod i rym ar: 31 Mawrth 2014

**CLA373 – Rheoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 4 Mawrth 2014; Fe'u gosodwyd ar: 6 Mawrth 2014; Yn dod i rym ar: 31 Mawrth 2014

<u>Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol</u>

**CLA368 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

## 3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 5 - 12)

**CLA(4)-09-14 – Papur 2 –** Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Papur Gwyn y Bil Amgylchedd

**CLA(4)-09-14 – Papur 3** – Llythyr gan y Prif Weinidog, Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**CLA(4)-09-14 – Papur 3A** – Memorandwm Llywodraeth Cymru, Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**CLA(4)-09-14 – Papur 4** – Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Offerynnau statudol gydag adroddiadau clir
17 Mawrth 2014

**CLA367 - Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2005. Mae'r diwygiadau'n rhoi Rheoliadau'r UE ar labelu bwydydd a chynhwysion bwyd â ffytosterolau, ffytostanolau a/neu esterau ffytostanol ychwanegol ar waith yng Nghymru. Bydd y diwygiadau'n parhau i sicrhau bod bwydydd â ffytosterolau neu stanolau ychwanegol yn cael eu labelu'n gyson fel bod gan ddefnyddwyr sydd am leihau neu gynnal colesterol eu gwaed yr holl wybodaeth am y defnydd priodol o'r cynhyrchion hyn.

**CLA368 - Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013 ('Rheoliadau 2013'), Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

Mae Rheoliadau 2013 wedi'u diwygio fel bod y troseddau a grëwyd a'r pwerau i gael gwybodaeth a chyflwyno cosbau'n ymwneud â chynlluniau a wnaed o dan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 neu sy'n gymwys yn ddiofyn ar 1 Ebrill 2014 yn unol â pharagraff 6 (1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**CLA369 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 drwy uwchraddio, o 1 Ebrill 2014, gwerth talebau a roddwyd tuag at y gost o ddarparu sbectolau a lensys cyffwrdd a chyflenwi rhai newydd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromig a chategorïau arbennig cyfarpar a chynyddu gwerth talebau a roddwyd tuag at y gost o drwsio cyfarpar optegol a chyflenwi rhai newydd.

**CLA370 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:-

(1) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986;
(2) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997; a
(3) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007.

Effaith y diwygiadau hyn yw caniatáu i'r Credyd Cynhwysol gael ei dderbyn fel budd-dal cymhwyso fel na fydd yn rhaid i hawliwr dalu taliadau'r GIG yn llawn neu'n rhannol. Byddai'n basbort ar gyfer holl hawlwyr y Credyd Cynhwysol rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

Mae hyn yn golygu y gall y rhai sy'n cael y Credyd Cynhwysol fod yn gymwys i gael triniaeth ddeintyddol y GIG am ddim, prawf golwg y GIG am ddim a

chymorth tuag at gost sbectolau a chostau teithio, a chyflwyno hawliad o dan Gynllun Incwm Isel y GIG i gael cymorth gyda chostau iechyd.

**CLA371 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ("Rheoliadau 1990") a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989").

Mae Adran 15 o Ddeddf 1989 yn nodi'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol sy'n gymwys i bwyllgorau ac is-bwyllgorau awdurdod lleol. Mae Rheoliad 16A o Reoliadau 1990 yn darparu ar gyfer eithriad i'r ddyletswydd o dan adran 15 i ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol neilltuol ar bwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol awdurdod lleol a sefydlwyd yn unig i gyflawni swyddogaethau neu i gynghori mewn perthynas â rhan o ardal yr awdurdod ("pwyllgorau ardal").

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan Atodlen 1 i Ddeddf 1989 ac maent yn mewnosod ar gyfer Cymru reoliad 16AA newydd i Reoliadau 1990 sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni yng Nghymru er mwyn i'r eithriad ar gyfer pwyllgorau ardal fod yn gymwys.

**CLA372 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith cyfreithiol y caiff llywodraeth leol gyflawni gwariant cyfalaf ynddo. Caiff Gweinidogion Cymru reoleiddio'r gweithgarwch hwnnw drwy reoliadau. Cafodd darpariaeth o'r fath ei gwneud gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3239) ("Rheoliadau 2003") sydd wedi eu diwygio ers hynny.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 18 o Reoliadau 2003 i ganiatáu i'r awdurdodau lleol ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a gafwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2013 i wneud ôl-daliadau mewn perthynas â thâl cyfartal.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 24A newydd yn Rheoliadau 2003, y bydd ei effaith yn dod i ben ar 1 Ebrill 2018. Mae'r rheoliad 24A newydd yn darparu nad oes angen i awdurdod lleol godi swm ar gyfrif refeniw mewn perthynas â thaliad sydd i'w wneud i swyddog neu weithiwr cyflogedig am waith a wnaed yn y gorffennol ac y cafodd y swyddog neu'r gweithiwr cyflogedig dâl anghyfartal amdano nes bod rhaid i'r awdurdod dalu'r swm hwnnw i'r swyddog neu'r gweithiwr cyflogedig. Mae hefyd yn darparu y bydd mantais rheoliad 24A yn gymwys hyd at 1 Ebrill 2023 pan nodir rhwymedigaeth ar neu cyn 1 Ebrill 2018.

## CLA373 - Rheoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2014

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) 1982. Caiff y diwygiadau eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012 ac maent yn disodli'r cyfeiriadau a wneir at y credyd cynhwysol am gyfeiriadau at lwfans rhent a chynlluniau ad-dalu rhent.

**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/AD-/0150/14

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

Chwefror 2014

**Cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd**

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 3 Chwefror 2014 a'ch diddordeb yn ein Papur Gwyn sy'n ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

O safbwynt y pwyntiau yr ydych yn eu codi, rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffwn bwysleisio nad yw'r cynigion i'w cynnwys yn y Bil drafft yn derfynol. Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn rhan allweddol o waith datblygu'r Bil. Yn ogystal, bydd yr ymatebion yn sail i'r gwaith o ddatblygu ymhellach ein cynigion a drafftio'r Bil ac rwy'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddiweddarach y Gwanwyn hwn.

Caiff dau bŵer posibl eu hamlinellu yn y Papur Gwyn a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Deddfau Seneddol a Deddfau'r Cynulliad drwy is-ddeddfwriaeth. Mae NRM11 yn amlinellu cynnig ar gyfer pŵer a fydd yn rhoi effaith i newidiadau i'r fframwaith is-ddeddfwriaethol sy'n llywodraethu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol o dan rai amgylchiadau. Byddai cynnig ychwanegol (SM4) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddf Dŵr, drwy Orchymyn, o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys os ydynt yn fodlon y bydd yn ei gwneud hi'n haws i gydgrynhoi un neu fwy o'r Deddfau Dŵr.

Os bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo, hoffwn gynnig sicrwydd mai'r bwriad yw sicrhau bod gan y pwerau gwmpas cyfyngedig a phenodol iawn i roi effaith i newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol sy'n llywodraethu'r modd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli. Ni fyddai hyn ond yn berthnasol o dan amgylchiadau penodol ac i ddeddfwriaeth benodol - hynny yw lle y mae modd dangos bod y gyfraith bresennol yn groes i ddiffiniad, pwrpas ac amcanion y fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig a lle y mae pob ffordd arall o fynd i'r afael â'r materion hynny eisoes wedi'u defnyddio. Byddai'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau eraill o'r fath sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*  *Printed on 100% recycled paper*

rhwymedigaethau'r UE.  Mynegwyd camdybiaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 12 Rhagfyr fod y pŵer hwn yn bŵer cyffredinol  a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gydgrynhoi deddfwriaeth Amgylcheddol drwy is-ddeddfwriaeth – nid dyma'r sefyllfa a bydd fy swyddogion yn cadarnhau bwriad a chwmpas cyfyngedig y pŵer.

Wrth ystyried y cynigion rwy'n ymwybodol o'r angen i sicrhau fframwaith cyfreithiol sy'n ddigon hyblyg  i ymateb yn well i amgylchiadau sy'n newid, ond hefyd i sicrhau eglurder ac atebolrwydd democrataidd clir.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn at yr Arglwydd Elis-Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog  Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/FM/0724/14

David Melding AM
Chair
Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

CLA.Committee@wales.gov.uk

6th March 2014

Dear David

**Disqualification from membership of the National Assembly for Wales**

I am pleased to note that the Constitutional and Legislative Affairs Committee has agreed to take forward an inquiry into the rules pertaining to disqualifications from Assembly membership.

I enclose the Welsh Government's written memorandum on disqualification issues, which I hope will aid you in your consideration of these matters.

The Welsh Government attaches considerable importance to these matters and we look forward to the outcome of the Committee's inquiry.

Yours sincerely

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

## Ymchwiliad i anghymwysiadau rhag bod yn aelod o'r Cynulliad: Memorandwm gan Lywodraeth Cymru

**Yn dilyn gwahoddiad y Prif Weinidog ym mis Ionawr 2014, mae Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad ('CLAC') wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i faterion sy'n ymwneud ag anghymwysiadau rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Fel rhan o'r broses graffu, mae wedi gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno Memorandwm a fyddai'n ei gynorthwyo i ystyried y materion hyn.**

Roedd Llywodraeth Cymru'n falch o ddysgu bod CLAC wedi cytuno i gynnal yr ymchwiliad hwn ac rydym yn gobeithio y bydd yr ymchwiliad yn helpu i wella a symleiddio'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymwysiadau rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Credwn fod y mater hwn yn berthnasol i'r Cynulliad cyfan, ac mae CLAC felly mewn sefyllfa dda i helpu i greu consensws trawsbleidiol eang ar y materion hyn. Mae'r ymchwiliad yn cynnig cyfle hefyd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion pwysig hyn sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd y mae Cymru'n cael ei llywodraethu.

I gynorthwyo gwaith craffu'r Pwyllgor, mae'r memorandwm hwn yn nodi ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r materion hyn a seilir ar ein profiad o weithredu'r rheolau hyn.

Mae tair rhan i'r memorandwm – yn gyntaf rydym yn ystyried y fframwaith cyd-destunol ar gyfer anghymwysiadau; wedyn rydym yn troi at fater cynnwys y Gorchymyn Anghymhwyso; ac yn olaf rydym yn trafod y materion ategol sy'n berthnasol i anghymwysiadau ond nad yw Llywodraeth Cymru'n gorfod ymdrin â hwy'n uniongyrchol fel rhan o'i gylch gwaith.

### Y Cyd-destun

Yn gyffredinol, mae cyfyngiadau ar aelodaeth yn un o nodweddion sylfaenol deddfwrfeydd etholedig. Er bod angen rhai cyfyngiadau, maent yn gyfyngiad ar hawliau democrataidd pobl. Ym marn Llywodraeth Cymru, felly, rhaid gallu cyfiawnhau'n gryf y rhesymeg y tu ôl i anghymhwyso pobl rhag bod yn aelod o'r Cynulliad, a dylem gyfyngu eithriadau i'r lleiaf posibl.

Mae rhai amodau ar gyfer y DU gyfan y mae rhaid i ddarpar ymgeisydd gydymffurfio â hwy er mwyn gallu sefyll mewn etholiadau i unrhyw un o ddeddfwrfeydd y DU. Er enghraifft, rhaid i'r person fod o leiaf 18 oed a bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd unrhyw aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd.

Yn benodol mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad, rhaid i ddarpar ymgeisydd, heblaw bodloni'r amodau uchod ar gyfer sefyll mewn etholiad, beidio â chael ei anghymhwyso rhag sefyll fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006:

Mae Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi nifer o bersonau nad ydynt yn cael bod yn aelodau o'r Cynulliad. Yn ogystal, mae'n darparu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ("Gorchymyn Anghymhwyso") ddynodi swyddi a mathau pellach o gyflogaeth bellach, lle byddai'r deiliaid y swyddi a'r mathau hynny o gyflogaeth hefyd yn cael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad. Ceir swyddi hefyd a benodir gan y Cynulliad (er enghraifft, aelodau'r Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol a'r Comisiynydd Safonau) lle mae'r ddeddfwriaeth sy'n eu sefydlu'n gwahardd ACau rhag cael eu penodi i'r swyddi ac yn gwahardd deiliaid swyddi rhag sefyll mewn etholiadau.

**Cynnwys y Gorchymyn Anghymhwyso**

Rhaid i Orchymyn Anghymhwyso gael ei osod ar ffurf ddrafft gerbron y Cynulliad a chael ei gymeradwyo gan benderfyniad y Cynulliad cyn i argymhelliad gael ei wneud i'w Mawrhydi yn Ei Chyngor fod y Gorchymyn yn cael ei wneud. O safbwynt eu cynnwys, mae Gorchmynion Anghymhwyso'r Cynulliad yn y gorffennol wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng caniatáu i gynifer o ddinasyddion â phosibl sefyll mewn etholiadau, tra'n amddiffyn y ddeddfwrfa rhag dylanwad gormodol gan ddeiliaid swyddi a delir gan y Llywodraeth, amddiffyn y pwrs cyhoeddus trwy osgoi gwrthdrawiad buddiannau, ac amddiffyn didueddrwydd rhai cyrff rhag amlygu tuedd wleidyddol.

Felly, mae Gorchmynion blaenorol wedi anelu at anghymhwyso:

- Deiliaid swyddi sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys swyddi â chyflog, swyddi pensiynadwy a rhai swyddi y telir ffi amdanynt, ond nid oedd yn cynnwys swyddi y telir treuliau yn unig ar eu cyfer. Ni ddylai swydd sydd â chyflog o lai na £10,000 y flwyddyn fod yn destun anghymhwysiad fel rheol.
- Penodiadau a gafodd eu gwneud, eu cymeradwyo neu eu cadarnhau gan y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, neu benodiadau yr oedd ganddynt hawl statudol i fod yn destun ymgynghori yn eu cylch.
- Deiliaid swyddi y byddai eu swyddogaethau'n peri gwrthdrawiad buddiant pe baent yn cael eu hethol fel Aelodau'r Cynulliad.
- Deiliaid swyddi nad oeddent, neu nad oeddent i bob golwg, yn ddiduedd yn wleidyddol.

Roedd yr egwyddorion hyn yn sail ar gyfer y swyddi neu'r gyflogaeth sy'n peri anghymhwysiad a gynhwysir yn y Gorchymyn Anghymhwyso blaenorol. Er hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi adolygu arferion blaenorol mewn perthynas â chynnwys Gorchymyn Anghymhwyso a thynnu sylw at y materion canlynol:

- Mae'r anghymwysiadau'n hir ac yn gymhleth, a gallai unigolion dramgwyddo (fel y digwyddodd yn achos dau unigolyn yn 2011) anghymwysiadau nad oedd modd eu cyfiawnhau i bob golwg;

- Gallai natur gymhleth rhai o'r anghymwysiadau hyn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr geisio cyngor cyfreithiol er mwyn penderfynu a ydynt yn destun yr anghymhwysiad penodol.

Cododd rhagflaenydd CLAC, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ('CAC'), bryderon hefyd pan ystyriodd y Gorchymyn Anghymhwyso diwethaf ar ffurf ddrafft, cyn i'r Cynulliad roi ystyriaeth iddo. Nododd CAC wahaniaethau rhwng triniaeth cyrff a gafodd eu dwyn ymlaen o'r rhestr flaenorol a'r rhai a gafodd eu hychwanegu am y tro cyntaf at y rhestr.

Byddai o fudd felly i CLAC edrych o'r newydd ar yr egwyddorion sy'n sail i'r swyddi a'r gyflogaeth sy'n peri anghymhwysiad a gynhwysir yn y Gorchymyn Anghymhwyso blaenorol, cynnig egwyddorion fel y bo'n briodol, cyn belled â phosibl, argymell rhestr newydd o swyddi a chyflogaeth sy'n peri anghymhwysiad a allai gael eu cynnwys wedyn yn y Gorchymyn

Anghymhwyso nesaf. Hoffem i'r Gorchymyn fod mor glir a hygyrch â phosibl, a hefyd hoffem ddileu unrhyw gymhlethdod diangen.

**Materion Ategol**

Mae ystyriaethau eraill sy'n ategol i'r Gorchymyn Anghymhwyso. Er mai offeryn statudol a fydd yn gymwys ledled y DU fydd y Gorchymyn Anghymhwyso, fel mater o egwyddor, credwn y dylai'r Gorchymyn gael ei wneud yn Gymraeg a Saesneg.

Mater arall i'w ystyried yw pryd y daw'r anghymwysiadau i rym. Gan mai'r Cynulliad sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Gorchymyn Anghymhwyso ar ffurf ddrafft, mater i'r Ysgrifennydd Gwladol, gyda chymeradwyaeth y Senedd, yw gwneud y Gorchymyn yn nodi'r rheolau ar gyfer cynnal Etholiadau'r Cynulliad. Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau enwebu. Fel y mae materion ar hyn o bryd, byddai angen i berson sy'n dal swydd sy'n ei anghymhwyso ar yr adeg y mae'n gorfod cydsynio i gael ei enwebu ymddiswyddo o'r swydd honno cyn cydsynio, fel arall byddai'n euog o arfer lygredig yn unol â Gorchymyn mwyaf diweddar, sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2010.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n gwneud y Gorchymyn perthnasol yn ymdrin â'r agwedd hon wrth arfer y pwerau a roddir iddo gan adran 13 o Ddeddf 2006 ac felly ni fydd gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol drosto. Er hynny, gwelwn fod y gofynion presennol yn ddatgymhelliad clir i ymgeiswyr am fod rhaid i berson ymddiswyddo o'i swydd neu ei gyflogaeth er mwyn sefyll fel ymgeisydd ac, os bydd yn aflwyddiannus yn yr etholiad hwnnw, byddai ei ailgyflogi'n dibynnu ar delerau ac amodau cyflogaeth sy'n gymwys. Yn ein barn ni felly byddai o fantais i'r Pwyllgor hefyd ystyried y mater hwn.

**Casgliad**

Yn ein barn ni nid yw'r strwythurau presennol ar gyfer eithrio personau rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad yn adlewyrchu eu *raison d'être* yn iawn. Bwriad yr anghymwysiadau yw atal ACau rhag dal swyddi neu gyflogaeth y bernir eu bod yn ymyrryd â chyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Ond yn ein barn ni mae'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymwysiadau'n fwyfwy anaddas at eu diben i'r graddau eu bod, mewn rhai achosion, yn ddatgymhelliad i ddarpar ymgeiswyr a thrwy hynny'n anghydnaws ag egwyddor grymuso cyfranogiad democrataidd.

Am y rhesymau hyn, rydym yn awyddus i weld sut y gellir newid y rheolau a'r egwyddorion sy'n sail i anghymhwyso er mwyn gwella cyfranogiad ymgeiswyr tra'n cadw ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae Etholiadau'r Cynulliad yn cael eu cynnal. Mae Llywodraeth Cymru'n edrych ymlaen at ganlyniad ymchwiliad CLAC. Gallai ffrwyth yr ymchwiliad hwn lywio cynnwys Gorchymyn Anghymhwyso nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y bydd angen ei wneud cyn Etholiadau nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2016.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/FM/0724/14

Rt Hon David Jones MP
Secretary of State for Wales
The Wales Office
Gwydyr House
Whitehall
London
PrivateOffice@walesOffice.gsi.gov.uk

6th March 2014

Dear David

**Disqualification from membership of the National Assembly for Wales**

I am writing to let you know that I wrote recently to the Presiding Officer of the National Assembly for Wales asking her whether she would be minded to ask the Constitutional and Legislative Affairs Committee to carry out an inquiry into the rules pertaining to disqualification from Assembly membership. I have enclosed a copy of my letter, together with the Presiding Officer's reply confirming that the Committee will take forward an inquiry on this matter.

It is of course for the Committee to decide its terms of reference for this inquiry. However, I am pleased that the Committee has agreed to undertake an inquiry on disqualification issues, as the time is now right to start considering the principles which should be reflected in the next Disqualification Order. I believe the Committee is best placed to consider and evaluate the evidence and provide a report to the Assembly, with a view to obtaining cross-party consensus on the principles underpinning disqualification from Assembly membership. The Disqualification Order requires the Assembly's approval, and their views should inform the drafting of the Order.

I am copying this letter to David Melding.

Yours sincerely

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk